# Y Pwyllgor Adolygu Gweithredol

**1 Rhagfyr 2021**

Yn Bresennol: Y Cynghorydd K Doolin (Cadeirydd)
Cynghorydd P Harries, Dr M Havard, Mrs J James, Cynghorydd PJ Morgan, Dr R Plummer, Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd S Yelland.

[Ymunodd y Cynghorydd M Evans â'r cyfarfod adeg ystyried yr adroddiad ar y Prosiect Peilot Cadair Olwyn Traeth a Mynediad i'r Awyr Agored (gweler Cofnod 5).]

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am – 12.15pm)

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

**2. Datgan Buddiannau**
Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiant.

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 22ain o Fedi 2021 i'w cadarnhau a'u dilysu.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 22ain o Fedi 2021.

**4. Adroddiad ar Gadwraeth 2020-2021**
Roedd yr Adroddiad ar Gadwraeth yn nodi'r canlyniadau a gyflawnwyd drwy waith yr Awdurdod ar gadwraeth yn ystod blwyddyn ariannol 2020-21, ac roedd yr adroddiad yn dangos y gwaith anferthol a wnaed ar draws ystod o weithgareddau, er gwaethaf y cyfyngiadau oedd yn ofynnol oherwydd y Pandemig. Dywedwyd mai'r prif gyfranwyr yn fewnol oedd swyddogion Cyfarwyddyd y Parc, y Timau Wardeniaid a'r Gwasanaeth Parcmyn.

Roedd yr adroddiad yn nodi canlyniadau monitro'r gwaith o reoli tir yn 2020-2021; enghreifftiau penodol o'r hyn a gyflawnwyd o dan y cynllun 'Gwarchod y Parc'; y cynnydd a wnaed o ran rheoli'r safleoedd sy'n eiddo i'r Awdurdod; adroddiad ar brosiectau partneriaeth a chydweithio; y cynnydd ar y prosiect Pwyth mewn Pryd; ac asesiad cryno o ganlyniadau monitro rhywogaethau a'u dehongli.

Llongyfarchodd yr Aelodau pob un o'r swyddogion dan sylw ar adroddiad cynhwysfawr a chadarnhaol er gwaethaf y cyfyngiadau, ac awgrymwyd y

gallai fod lle i ddatblygu sgiliau gwirfoddolwyr a thirfeddianwyr i ymgymryd â gwaith monitro mewn achosion lle nad oedd swyddogion ar gael neu'n methu teithio oherwydd cyfyngiadau. Mynegwyd rhai pryderon ganddynt ynghylch yr oedi cyn cyflwyno Cynllun Ffermio Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, a hefyd y cyllid cyfyngedig sydd ar gael ar gyfer cynllun yr Awdurdod 'Gwarchod y Parc'. Cytunodd y Swyddog Bioamrywiaeth y gallai'r bwlch rhwng diwedd y cynllun amaeth-amgylcheddol a dechrau'r cynllun sy'n ei ddisodli amharu ar y cynnydd a wnaed ar ffermydd bach. Hefyd rhoddodd y swyddog y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith ym Mhen-lan, ac mewn ymateb i gwestiwn gan un Aelod dywedodd bod gwaith yr Awdurdod mewn tirwedd sy'n dir ffermio yn bennaf, o ran pori'r arfordir a'r cynllun Gwarchod y Parc, yn cyfuno'r elfennau o ffermio ac adfer bioamrywiaeth i ddangos arweiniad ymhlith y Parciau Cenedlaethol yn y maes hwn o reoli tir.

O ran y cynllun Gwarchod y Parc, ychwanegodd y Prif Weithredwr er na ellid addo mwy o gyllid, bod mynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth yn un o flaenoriaethau allweddol yr Awdurdod, a'i obaith oedd y gellid dod o hyd i adnoddau ychwanegol fyddai'n cefnogi'r gwaith hwnnw.

**Nodwyd.**

**5. Prosiect Peilot Cadair Olwyn Traeth a Mynediad i'r Awyr Agored**

Dywedwyd bod yr Awdurdod wedi darparu cadeiriau olwyn traeth ar y cyd â busnesau lleol a phartneriaid ers 12 mlynedd a mwy. Bu saib yn y trefniadau dros yr haf 2020, er y llwyddwyd i drefnu casglu a gollwng cadeiriau am y tro yn Llanion.

Roedd ffyrlo a chau busnesau, ynghyd â mwy o ystyriaethau diogelwch, yn golygu y byddai angen cryn dipyn o waith ffocws er mwyn cael y fflyd o gadeiriau olwyn traeth yn ôl ac yn weithredol erbyn haf 2021 a thu hwnt. Roedd angen ailadeiladu neu ddatblygu perthynas â busnesau/ cymunedau lleol er mwyn cynnal y gwasanaeth cadeiriau olwyn, a hynny drwy gydymffurfio â rheolau diogelwch COVID. Felly roedd swydd wedi'i chreu am 6 mis yn y lle cyntaf i ddatblygu cyfleoedd i bobl sydd ag anableddau neu gyflyrau iechyd ddefnyddio cadair olwyn traeth, yn ogystal â datblygu gwybodaeth ac adnoddau. Roedd y swydd bellach wedi'i hymestyn am flwyddyn yn rhan amser.

Roedd yr adroddiad diwedd prosiect ar gael i'r Pwyllgor, ac roedd yr adroddiad hwn yn nodi rhai o'r heriau a wynebwyd wrth ddatblygu'r prosiect a rhoi'r systemau a'r prosesau ar waith, ac yn amlygu rhai o'r digwyddiadau yr oedd y prosiect wedi'u cefnogi, ac yn cynnwys nifer o enghreifftiau o adborth cadarnhaol. gan y defnyddwyr.

Llongyfarchodd yr Aelodau y swyddogion ar yr hyn a gyflawnwyd, ac yn falch o ddarllen am y gwahaniaeth enfawr yr oedd y cadeiriau olwyn wedi'i wneud i'r rhai oedd wedi'u defnyddio. Awgrymwyd y gellid cael adborth ychwanegol drwy'r cytundeb benthyciwr ac y gellid ceisio hyrwyddo'r cynllun ymhellach drwy'r darparwyr twristiaeth/llety yn y sir. Mynegodd Aelod arall y gobaith y gellid datblygu'r prosiect ymhellach i hyrwyddo'r defnydd o gadeiriau olwyn ar gyfer pob math o dir yn y Preseli a hefyd i edrych ar y defnydd o gadeiriau modur. Atebodd y swyddogion eu bod yn cytuno bod cyfleoedd i ddefnyddio'r Treic Mynydd yng ngogledd y Parc a bod hwn yn faes i'w ddatblygu. O ran cadeiriau modur, nodwyd eu bod yn cynnig cyfleoedd gwych, ond bod angen llawer mwy o waith cynnal a chadw arnynt ac felly adnoddau ychwanegol.

**Nodwyd.**

**6. Adroddiad Perfformiad am y Cyfnod yn Diweddu 30 Medi 2021**

Roedd yr adroddiad perfformiad yn dilyn strwythur y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau ar gyfer 2020/21. Roedd y Cynllun hwn yn dilyn dulliau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sydd â saith o amcanion llesiant, ac adran ychwanegol oedd yn cyflwyno gwybodaeth gyffredinol am lywodraethu. Roedd y gweithgareddau oedd yn ymateb i'r adferiad ar ôl Covid 19 wedi'u prif-ffrydio yn y ffrydiau gwaith o dan pob un o'r Amcanion Llesiant.

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r perfformiad hyd at 30 Medi 2021 o ran data misol ac ystadegau chwarterol am chwarter 1 i chwarter 2 (Ebrill i Medi), gan fynd ymlaen i dynnu sylw at ystadegau perthnasol o ran gwaith y gwahanol dimau ac adrannau'r Awdurdod.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddog am adroddiad clir a manwl, yn enwedig am egluro'r camau hynny oedd yn y categori coch neu ambr. Dywedodd y Prif Weithredwr bod oedi cyn penderfynu ar rai materion oedd yn ymwneud â'r gweithlu a materion ariannu hyd nes bod strwythur yr Awdurdod a'i ffyrdd o weithio wedi'i gytuno yn dilyn yr ymarferiad presennol o ail-flaenoriaethu. Mewn ymateb i gwestiwn arall, dywedodd hefyd y byddai'r Cynllun Parhad Busnes yn cael ei ddwyn gerbron yr Awdurdod maes o law.

Llongyfarchwyd y gwelliannau a nodwyd yn yr ystadegau cynllunio, ond roedd rhai Aelodau o'r farn bod hwn yn faes yr oedd angen ei fonitro oherwydd effeithiau posibl polisi newydd Llywodraeth Cymru. Rhoddwyd gwybodaeth i'r Pwyllgor ar y camau a gymerwyd i wella amseroedd ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth, a gofynnodd yr Aelodau am i ystyriaeth gael ei rhoi i gyflwyno adroddiad blynyddol iddynt ar y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a wnaed.

Yn olaf dywedodd Cadeirydd yr Awdurdod ei fod wedi derbyn nifer o negeseuon, ar ôl cerdded Llwybr yr Arfordir fis Medi, oddi wrth ei gyd-gerddwyr yn ei longyfarch ar gyflwr y llwybr, a chymeradwyodd y daith i bawb.

**Nodwyd .**

[Ymddiheurodd y Cynghorydd A Wilcox a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol.]

**7. Cofrestr Risg**

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y Gofrestr Risg ddiweddaraf. Yn absenoldeb y Rheolwr Cyllid, dywedodd y Prif Weithredwr, o ganlyniad i'r Adolygiad Sicrwydd o Reoli Risg a gynhaliwyd gan TIAA, Archwilwyr Mewnol yr Awdurdod, a'r Gweithdy diweddar lle trafodwyd y mater, bod newidiadau wedi'u gwneud i'r gofrestr, ac amlygwyd y newidiadau hyn yn yr adroddiad eglurhaol ynghyd â'r 5 prif risg i'r Awdurdod. Ychwanegodd y byddai gwaith pellach yn cael ei wneud i ddiweddaru'r Gofrestr ei hun yn yr wythnosau nesaf er mwyn gweithredu argymhellion eraill yr Archwilwyr Mewnol. Un argymhelliad oedd mai dim ond un o Bwyllgorau'r Awdurdod ddylai ystyried y Gofrestr Risg, ac felly byddai adroddiad i'r cyfarfod nesaf o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn gofyn am newid Cylch Gorchwyl y Pwyllgor hwn fel bod y Gofrestr Risg yn cael ei hystyried yn y dyfodol gan y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol yn unig.

Canmolodd yr Aelodau y Gweithdy Risg a gynhaliwyd yn ddiweddar, a chytunwyd â'r argymhellion a nodwyd yn yr Adolygiad. Y gobaith oedd y byddai trafodaeth bellach ar y parodrwydd i dderbyn risg ac y byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i aseinio perchnogaeth o risgiau unigol a chynhyrchu cofrestr gorfforaethol fyrrach, gydag is-gofrestri eraill yn cael eu rheoli gan Bwyllgorau/timau unigol allai fwydo gwybodaeth i mewn i'r gofrestr. Cytunwyd hefyd bod mynd at wraidd rhai meysydd penodol yn bwysig ac y gellid dirprwyo hynny i Bwyllgorau unigol.

Gan droi at risgiau penodol, roedd yr Aelodau o'r farn bod angen diweddaru'r cynnydd o ran Risgiau 6 (methu â chynnal lefelau uchel o lywodraethu), ac ystyriwyd y dylid cynnwys risgiau ychwanegol o ran ymarferiad yr Awdurdod ar ailstrwythuro ac ail-raddio, risgiau mwy cyffredinol o glefydau coed ac anifeiliaid, amrywiaeth y gweithlu, deddfwriaeth newydd mewn perthynas â ffosffadau, ac ail gartrefi. Yn olaf, ystyriwyd bod Risg 9 (Effaith Newid yn yr Hinsawdd) yn eang iawn ac y gellid ei isrannu'n nifer o risgiau, a dywedodd y Prif Weithredwr bod gwaith ychwanegol yn y maes hwn eisoes ar y gweill.

**Nodwyd.**

**8. Grŵp Gwelliant Parhaus: dirprwyo materion**

Bu peth trafodaeth ynglŷn â rôl y grŵp hwn a'r angen am fodolaeth y grŵp. Atebodd y Prif Weithredwr bod gan y Pwyllgor Archwilio a Gwasanaethau Corfforaethol a'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol y gallu i ddirprwyo materion i'r grŵp hwn. Fodd bynnag nid oedd unrhyw faterion wedi codi yn y blynyddoedd diwethaf. Roedd y Grŵp wedi'i greu am reswm penodol flynyddoedd lawer yn ôl, ac wedi'i gadw fel y gallai ystyried unrhyw faterion difrifol pe baent yn codi. Serch hynny, yn sgîl cwestiynau'r Aelodau, byddai'n ystyried y goblygiadau o ddiddymu'r Grŵp, ac yn adrodd yn ôl i gyfarfod yn y dyfodol.

**Penderfynwyd** nad oedd unrhyw faterion yr oedd angen eu dirprwyo i'r Grŵp Gwella Parhaus i'w hystyried.

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2022 heb eu diwygio. |